

Ysgogi Gwelliant Parhaus mewn Perfformiad – Cyngor Sir Ddinbych

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2784A2022-23

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych fel rhan o waith a gyflawnir/ yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Mae trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor o gymorth i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, gyda chyfleoedd i gryfhau trefniadau mewn rhai meysydd.

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl 7

Mae trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor o gymorth i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, gyda chyfleoedd i gryfhau trefniadau mewn rhai meysydd 7

Mae'r Cyngor wedi sefydlu fframwaith rheoli perfformiad effeithiol 7

Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer mesur perfformiad ac adrodd arno'n effeithiol gyda rhai cyfleoedd i wella'i feddalwedd rheoli perfformiad 9

Mae gan y Cyngor drefniadau da i adrodd ar berfformiad yn erbyn ei flaenoriaethau ond gallai wella'r modd y mae'n adrodd ar berfformiad mewn meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth ac adrodd ar ddata ariannol a data ynghylch perfformiad gyda'i gilydd 10

Adroddiad cryno

Crynodeb

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

- 1 Mae rheoli perfformiad yn rhoi cyfle i gynllunio ar gyfer gwelliannau, mesur llwyddiant, dysgu o brofiad ac ysgogi gwelliant. O'i wneud yn dda, mae'n brofiad cadarnhaol – o'i wneud yn wael gall hybu'r arfer o fwrw bai a diwylliant lle caiff perfformiad gwael ei gelu a'i gadw oddi wrth y rhai a all gefnogi ac ysgogi gwelliant.
- 2 Mae fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn amcanu at helpu rheolwyr a chynghorwyr i gyflawni gwelliant, dangos eu bod yn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol ac yn defnyddio adnoddau'n effeithiol. Mae rheoli perfformiad yn rhan annatod o ddull y Cyngor o ysgogi gwelliant cynaliadwy.
- 3 Ym mis Rhagfyr 2019, rhoddodd adroddiad Archwilio Mewnol ar reoli perfformiad sgôr sicrwydd uchel ar y cyfan. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y fframwaith rheoli perfformiad yn y Cyngor yn cael ei reoli'n dda, a bod cymorth priodol ar gael. Ni chanfuwyd unrhyw risgiau mawr na chritigol yn yr adroddiad.
- 4 Er bod gan y Cyngor hanes da o reoli perfformiad, mae'n wynebu rhai heriau sylweddol. Mae Adolygiad Blynyddol y Cyngor o Berfformiad ar gyfer 2020-21 yn dangos mai cymysg yw ei gyflawniad yn erbyn dangosyddion perfformiad gyda'r sgôr ar gyfer rhai ohonynt yn 'dda' neu'n 'dderbyniol' a llawer yn cael eu dangos fel 'blaenoriaethau ar gyfer gwella'. Mae diffyg data mewn rhai meysydd yn gwneud cymariaethau'n anodd. Er bod swyddogion wedi rhoi blaenoriaeth i ymdrin â phandemig diweddar COVID-19 (y pandemig), a fydd yn effeithio ar berfformiad mewn sawl maes gwasanaeth, mae'n bwysig bod y trefniadau rheoli perfformiad yn parhau i ddarparu sicrwydd a rhybuddio rheolwyr ynghylch amrywiadau o ran darparu gwasanaethau craidd a chyflawni deilliannau craidd.
- 5 Mae effaith y pandemig ar 'fusnes fel arfer' yn y Cyngor wedi bod yn sylweddol. Fe wnaeth llawer o wasanaethau newid ac addasu mewn ymateb i'r pandemig. Mae'r Cyngor wedi bod yn ailddiffinio 'busnes fel arfer' gan gydnabod y gall y pandemig fod wedi newid y galw am wasanaethau a'r ffyrdd y mae'r Cyngor yn eu darparu hefyd.
- 6 Mae'r Cyngor wedi adolygu ei flaenoriaethau oherwydd y pandemig ond fe benderfynodd y dylent aros yr un fath. Fe sefydlodd y Cyngor set ar wahân o flaenoriaethau adfer o COVID hefyd y mae bellach naill ai wedi eu cyflawni neu a fydd yn rhan o'i brosiect Ffyrdd Newydd o Weithio.
- 7 Cynhaliwyd ein hadolygiad rhwng mis Mehefin 2021 a mis Medi 2021, ac roedd yn cynnwys adolygiadau o ddogfennau, cyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda swyddogion a chynghorwyr, ac arsylwi ar gyfarfodydd rhithwir. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar drefniadau rheoli perfformiad corfforaethol y Cyngor ac fe archwiliodd wasanaethau Amgylcheddol a Phobl Ifanc fel gwasanaethau olrhain i ddangos sut yr oedd y trefniadau corfforaethol yn cael eu rhoi ar waith mewn meysydd gwasanaeth.

Yr hyn a ganfuom

- 8 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor yn gadarn ac yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus a chynaliadwy wrth iddo adfer cydbwysedd o effaith COVID-19?
- 9 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: **Mae trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor o gymorth i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, gyda chyfleoedd i gryfhau trefniadau mewn rhai meysydd.** Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- Mae'r Cyngor wedi sefydlu fframwaith rheoli perfformiad effeithiol
 - Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer mesur perfformiad ac adrodd arno'n effeithiol gyda rhai cyfleoedd i wella'i feddalwedd rheoli perfformiad
 - Mae gan y Cyngor drefniadau da i adrodd ar berfformiad yn erbyn ei flaenoriaethau ond gallai wella'r modd y mae'n adrodd ar berfformiad mewn meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth ac adrodd ar ddata ariannol a data ynghylch perfformiad gyda'i gilydd

Argymhellion

Arddangosyn 1: argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u canfod yn dilyn yr adolygiad hwn.

Argymhellion	
A1	<p>Dylai'r Cyngor ystyried sut y gall roi cymorth gwell i staff ddefnyddio'r system Verto. Mae angen iddo:</p> <ul style="list-style-type: none">• adolygu cynnwys a mynychder yr hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael i staff; ac• ystyried a yw'r contract Verto newydd yn caniatáu iddo wneud y system yn haws i'w defnyddio.
A2	<p>Mae angen i'r Cyngor gyflwyno gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad ar yr un pryd, fel bod gan aelodau etholedig a swyddogion fwy o ddealltwriaeth a chyd-destun mewn perthynas â'r cysylltiadau rhwng perfformiad a gwariant/cost.</p>
A3	<p>Dylai'r Cyngor sicrhau bod ganddo ddull corfforaethol cyson o fonitro perfformiad mewn meysydd nad ydynt wedi'u cynnwys ym mlaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a Chynlluniau Gwasanaeth.</p>

Argymhellion

- A4 Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod cyfarfodydd un-i-un ar gyfer staff yn digwydd fel a fwriadwyd a'u bod yn cael eu cofnodi'n gywir a hynny mewn modd amserol.

Adroddiad manwl

Mae trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor o gymorth i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, gyda chyfleoedd i gryfhau trefniadau mewn rhai meysydd

Mae'r Cyngor wedi sefydlu fframwaith rheoli perfformiad effeithiol

- 10 Caiff blaenoriaethau'r Cyngor eu nodi yn ei Gynllun Corfforaethol 2017-2022. Ategir pob blaenoriaeth gan gamau gweithredu diffiniedig a deilliannau disgwylidig. Y pum blaenoriaeth yw:
- Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n bodloni eu hanghenion
 - Mae cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da
 - Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i fagu annibyniaeth a chadernid
 - Mae'r amgylchedd yn ddeniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd
 - Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny
- 11 Mae gan y Cyngor broses eglur a thryloyw i osod targedau ar gyfer pob maes blaenoriaeth sy'n ystyried data ynghylch perfformiad ar lefel Cymru gyfan. Os yw perfformiad y Cyngor yn y chwarter uchaf o'i gymharu â'r cynghorau eraill yng Nghymru caiff ei gategoreiddio fel perfformiad 'rhagorol'. Os yw perfformiad y Cyngor rhwng y chwarter canolrifol a'r chwarter uchaf caiff ei gategoreiddio fel perfformiad sydd naill ai'n 'dda' neu'n 'dderbyniol' ac os yw perfformiad y Cyngor islaw'r canolrif ar gyfer Cymru gyfan caiff ei gategoreiddio fel perfformiad sy'n 'flaenoriaeth ar gyfer gwella'. Fodd bynnag, mae cyhoeddi llai o setiau data cenedlaethol dros y blynyddoedd diwethaf wedi herio'r fethodoleg hon. Lle nad oes data cymharol cenedlaethol ar gael, gosodir targedau yn dilyn trafodaethau rhwng penaethiaid gwasanaeth a swyddogion perfformiad ynglŷn â'r hyn sy'n lefel dderbyniol o berfformiad. Mae'n anorfod bod y broses hon yn fwy goddrychol. Bydd angen i gynghorau sicrhau bod amrywiaeth addas o wybodaeth gymharol ar gael, os nad yn genedlaethol yna'n rhanbarthol, yn y dyfodol, gan bod hyn yn elfen bwysig o hunanwerthuso/hunanasesu.
- 12 Mae gan bob gwasanaeth gynllun gwasanaeth sydd o gymorth i gyflawni blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol. Cytunir ar gynlluniau gwasanaeth yn flynyddol a phrin eu bod yn newid yn sylweddol o un flwyddyn i'r llall am eu bod yn gysylltiedig â'r blaenoriaethau corfforaethol, a gaiff eu pennu am gyfnod o bum mlynedd. Mae cynlluniau gwasanaeth yn nodi trosolwg o'r gwasanaeth a'r deilliannau y mae'r gwasanaeth yn amcanu at eu cyflawni. Mae'r cynlluniau'n

cynnwys y dangosyddion perfformiad, mesurau a gweithgareddau a fydd yn cael eu defnyddio i asesu cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion. Rhoddir sgôr coch, ambr neu wyrdd (CAG) i bob deilliant, sy'n dynodi'r lefel o welliant y mae ei hangen, a chaiff y rhain eu diweddarau pan adroddir ar y cynlluniau gwasanaeth bob chwarter. Caiff adroddiadau ar gynlluniau gwasanaeth eu hystyried fel rhan o'r broses o herio gwasanaethau, er nad yw hyn wedi bod yn digwydd yn y ffordd arferol yn ystod y pandemig.

- 13 Mae Tîm Cynllunio Strategol y Cyngor yn cynorthwyo rheolwyr i ddatblygu cynlluniau gwasanaeth. Mae'r broses yn ystyried deilliannau bwriadedig, dangosyddion, a thargedau ar gyfer perfformiad. Mae'r broses hon yn nodweddiadol yn dechrau ym mis Rhagfyr, gyda'r Pennaeth Gwasanaeth ac aelodau portffolio arweiniol yn cytuno ar y cynllun erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.
- 14 Mae cynllun y Gwasanaethau Addysg a Phlant a chynllun y Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol o gymorth i gyflawni eu blaenoriaeth gorfforaethol berthnasol er y gallai'r cysylltiadau fod yn fwy eglur. Mae cynllun y Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol yn cyfeirio at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ond nid yw'n nodi'n benodol sut y mae amcanion y cynllun gwasanaeth yn cysylltu â'r Cynllun Corfforaethol. Nid yw cynllun y Gwasanaethau Addysg a Phlant yn cyfeirio'n benodol at y Cynllun Corfforaethol, er ei bod yn amlwg bod blaenoriaethau'r gwasanaethau'n gysylltiedig â'r amcan yn y Cynllun Corfforaethol 'Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny'.
- 15 Caiff targedau ar gyfer y cynlluniau gwasanaeth eu hadolygu'n flynyddol, ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf, gan yr Uwch Dîm Arwain a'r Cabinet, gyda chymorth swyddogion perfformiad. Os yw targed wedi cael ei gyrraedd yn hawdd, neu os nad yw targed yn gyraeddadwy mwyach, gellir ei ddiwygio fel rhan o'r broses hon. I gysylltu'r broses o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol a blaenoriaethau gwasanaeth ag aelodau unigol o staff, mae'r Cyngor yn defnyddio cyfarfodydd un-i-un misol, yn lle proses arfarnu flynyddol. Roedd swyddogion y siaradom ni gyda hwy yn ystod yr adolygiad hwn yn gadarnhaol ynglŷn â'r fethodoleg hon, gan ddweud bod y cyfarfodydd un-i-un misol yn fwy effeithiol o ran rheoli staff a'u perfformiad. Fodd bynnag, yn y Gwasanaethau Addysg a Phlant a'r Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol, arweiniodd asesiad o ganran y staff a gafodd o leiaf dri chyfarfod un-i-un yn y 12 mis diwethaf at roi sgôr 'coch' i'r deilliant hwn. Roedd swyddogion yn credu mai mater sy'n ymwneud â chofnodi oedd hwn yn hytrach nag adlewyrchiad gwirioneddol o fynychder cyfarfodydd un-i-un.

Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer mesur perfformiad ac adrodd arno'n effeithiol gyda rhai cyfleoedd i wella'i feddalwedd rheoli perfformiad

- 16 Lle mae perfformiad islaw'r canolrif ar gyfer Cymru, fel a nodir uchod, caiff ei gategoreiddio fel perfformiad coch ac mae hynny'n sbarduno lefelau uwch o graffu ar lefel uwch swyddogion. Os yw perfformiad uwchlaw'r canolrif neu yn y chwarterf cyntaf, caiff ei gategoreiddio fel perfformiad ambr neu wyrdd ac nid yw'n ofynnol rhoi ystyriaeth bellach iddo.
- 17 Mae'r Cyngor yn coladu ac yn cofnodi data ynghylch perfformiad gan ddefnyddio meddalwedd rheoli perfformiad pwrpasol, o'r enw Verto, sydd â nifer o fanteision dros feddalwedd mwy generig. Er enghraifft, gall Verto gynhyrchu adroddiadau'n uniongyrchol, ac mae'n cynnig mwy o sefydlogrwydd wrth ymdrin â setiau data mawr. Fodd bynnag, dywedodd llawer o reolwyr wrthym eu bod yn cael Verto yn anodd i'w ddefnyddio. Fe wnaeth y tîm Archwilio Mewnol nodi bod defnyddio ac ymgodymu â'r system yn risg yn ei adroddiad ar reoli perfformiad ym mis Rhagfyr 2019 hefyd.
- 18 Dim ond yn chwarterol y mae llawer o staff yn defnyddio Verto a hynny i ddarparu'r data a ddefnyddir i adrodd ar berfformiad wrth yr Uwch Dîm Arwain a'r Cabinet. O ganlyniad, cyfyngedig yw'r cyfleoedd iddynt ymgysylltu â'r system. Nid oedd staff y siaradom ni gyda hwy'n ystyried bod Verto yn reddfodol ac fe ddwedon nhw fod angen cymryd sawl cam i gael mynediad at yr adran berthnasol, sy'n gallu bod yn anodd i ddefnyddwyr gofio. Mae'r Cyngor wedi darparu hyfforddiant ar gyfer staff ac wedi trefnu bod canllawiau i ddefnyddwyr ar gael. Mae'r canllawiau ar gael ar Verto a hefyd yn ddwyieithog ar fewnwyd y Cyngor. Fe siaradom ni gyda swyddogion a oedd wedi cael hyfforddiant, ond a oedd yn dal i gael y system yn anodd i'w defnyddio. Mae swyddogion perfformiad corfforaethol ar gael i gynorthwyo, ond yn amlwg mae'n fwy effeithlon os yw defnyddwyr yn gallu gwneud eu gwaith yn annibynnol.
- 19 Oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio ers cyflwyno Verto (oddeutu saith mlynedd), yn ddiweddar fe gwblhaodd y Cyngor ymarfer tendro ar gyfer meddalwedd rheoli perfformiad. Daeth y Cyngor i'r casgliad bod Verto'n dal i gynnig yr ymarferoldeb a gwerth am arian gorau i'r Cyngor. Felly bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio Verto, gyda pheth amser datblygwr ychwanegol wedi'i ymgorffori yn y contract newydd.
- 20 Ac yntau wedi penderfynu parhau i ddefnyddio Verto, mae gan y Cyngor gyfle i fyfyrion ynghylch perfformiad staff sy'n defnyddio'r system. Trwy ymgysylltu â staff, bydd y Cyngor yn deall yn well pa gymorth ychwanegol all swyddogion gael budd ohono a pha un a ellir cynnwys hyn fel rhan o'r amser datblygwr ychwanegol yn y contract newydd. Gallai hyn arwain at ychwanegu data ynghylch perfformiad at y system a chael mynediad haws a mwy effeithlon ato.

Mae gan y Cyngor drefniadau da i adrodd ar berfformiad yn erbyn ei flaenoriaethau ond gallai wella'r modd y mae'n adrodd ar berfformiad mewn meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth ac adrodd ar ddata ariannol a data ynghylch perfformiad gyda'i gilydd

- 21 Caiff perfformiad yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth ei adolygu bob chwarter gan yr Uwch Dîm Arwain, gan y Cabinet a chan y Pwyllgor Craffu ar Berfformiad. Mae'r adroddiadau ar gael yn gyhoeddus fel rhan o bapurau agenda'r pwyllgor craffu a'r Cabinet. Mae'r adroddiadau'n darparu diweddariad naratif ar gynnydd gyda'r blaenoriaethau ac yn adrodd ar berfformiad mewn perthynas â mesurau penodol. Mae'r adroddiadau'n cynnwys pa un a yw perfformiad cyfredol yn dynodi y dylai'r mesurau fod yn flaenoriaeth ar gyfer gwella, pan a ydynt yn dderbyniol, yn dda ynteu'n rhagorol. Er bod yr wybodaeth a ddarperir yn gynhwysfawr, gallai gael ei chyflwyno mewn ffordd fwy gweledol, er enghraifft gan ddefnyddio siartiau, tablau, a chod lliw i amlygu amrywiadau rhwng y targed a pherfformiad gwirioneddol.
- 22 Mae Pwyllgor Craffu ar Berfformiad y Cyngor yn cwrdd bob chwe wythnos. Mae'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiadau ar berfformiad cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet. Mae hefyd yn bwrw golwg ar eitemau megis Cynllun Blynnyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, y gofrestr risgiau corfforaethol, safonau Llyfrgelloedd a strategaethau a chynlluniau eraill sy'n ymwneud â gwasanaethau penodol.
- 23 Lle mae aelodau'r Cabinet a'r pwyllgor craffu'n gofyn am eglurhad pellach fel rhan o'r broses chwarterol ar gyfer adrodd ar berfformiad, gall yr eglurhad dros berfformiad gwael a chmau unioni gael eu trafod ar y pryd. Lle mae angen rhagor o eglurder neu fanylion, ond bod y rhain yn methu â chael eu darparu ar unwaith yn y cyfarfod, gellir adrodd yn ôl ar hynny wrth yr aelodau yn dilyn y cyfarfod, trwy'r swyddogion cefnogi pwyllgorau. Mae gan gynghorwyr yr opsiwn i ychwanegu eitemau at flaenraglen waith y pwyllgor craffu hefyd.
- 24 Mae'r prosesau sydd gan y Cyngor i reoli perfformiad ac adrodd arno'n effeithiol gan mwyaf ond maent yn amlwg yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a Chynlluniau Gwasanaeth. Yn hanesyddol, nid oes adroddiadau am berfformiad mewn meysydd iechyd corfforaethol megis absenoldeb oherwydd salwch, neu dalu anfonebau o fewn graddfeydd amser y cytunwyd arnynt, wedi bod yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet na phwyllgorau craffu ac felly nid oedd yr wybodaeth yn hygyrch i'r cyhoedd. Ym mis Mehefin 2021, fe ychwanegodd y Cyngor set newydd o fesurau at ei Adroddiad Blynnyddol ar Berfformiad, a oedd yn cynnwys perfformiad mewn meysydd megis iechyd ariannol, gwasanaeth cwsmeriaid, presenoldeb aelodau, cyflog y rhywiau ac absenoldeb oherwydd salwch. Mae'r Cyngor yn bwriadu i adroddiadau chwarterol dilynol barhau i gyflwyno'r data hwn.

- 25 Mae'r Cyngor wedi sefydlu proses flynyddol i herio gwasanaethau, lle mae swyddogion, aelodau Cabinet a chadeiryddion pwyllgorau craffu'n ystyried perfformiad maes gwasanaeth penodol. Mae'r sesiynau herio gwasanaethau hyn yn cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor ac yn rhoi cyfle i reolwyr rannu gwybodaeth bwysig am eu gwasanaethau a chael eu herio am berfformiad diweddar, cyfredol ac arfaethedig. Yn y sesiynau herio gwasanaethau, mae'r mynychwyr yn cael trosolwg o'r gwasanaeth cyfan.
- 26 Ar gyfer eleni, roedd yr wybodaeth a ddarparwyd i gynghorwyr yn llai manwl gan mai'r bwriad oedd canolbwyntio ar effaith y pandemig a'r ymateb iddo. Mae hyn yn golygu bod llai o wybodaeth wedi cael ei darparu am berfformiad ar lefel gwasanaethau. Roedd adborth gan y mynychwyr am y dull diwygiedig yn gadarnhaol, oherwydd dan y fformat blaenorol roedd rhai o'r mynychwyr yn cael bod lefel y manylder a swm yr wybodaeth yn her i'w llyncu a'u deall.
- 27 Mae'n ddigon hawdd deall ac mae'n briodol y bydd ymateb y Cyngor i'r pandemig wedi golygu llai o ffocws ar fusnes fel arfer. Fodd bynnag, wrth drefnu sesiynau herio gwasanaethau yn y dyfodol, bydd ar y Cyngor eisiau ystyried pa wybodaeth fydd yn helpu i hwyluso her effeithiol a sicrhau nad yw'r cyfle hwn i ganolbwyntio ar berfformiad ehangach y Cyngor yn cael ei golli.
- 28 Er bod swyddogion yn cyflwyno adroddiadau chwarterol ar berfformiad i'r Cabinet ochr yn ochr â diweddariadau ar gyllid a bod yr Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad yn cynnwys peth gwybodaeth ariannol lefel-uchel, nid yw'r Cyngor yn alinio gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad yn effeithiol yn ei adroddiadau. Fe wnaeth y tîm Archwilio Mewnol nodi bod hyn yn risg ac mae'r Cyngor yn derbyn canfyddiadau'r tîm Archwilio Mewnol, er nad yw wedi gweithredu ar yr argymhelliad eto. Mae dangos y cysylltiad rhwng gwariant/costau ac effaith yn gallu bod yn gymhleth, ond ni ddylai hynny atal y Cyngor rhag defnyddio dull mwy pragmatig o gyflwyno gwybodaeth am y gyllideb/gwariant a pherfformiad ar yr un pryd. Byddai hynny'n galluogi swyddogion a chynghorwyr i weld y cysylltiad rhwng allbwn/gweithgarwch a gwariant a byddai'n gam defnyddiol ymlaen o'r sefyllfa gyfredol o ran darparu cyd-destun ychwanegol ar gyfer data ynghylch perfformiad.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.